Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Mai 10, 2016 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Gethin Williams, John Hughes, Janet Edwards, Llinos Williams ac Elfed ap Gomer. Hefyd Peredur Jenkins a Henry Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Carwyn Evans a Gareth Ellis.

2. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Geraint Rowlands
Is Gadeirydd: Gethin Williams.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards
Llywodraethwyr Ysgol Llanelltyd (1): Carwyn Evans.
Llywodraethwyr Ysgol Bontddu (1): Gwenan Owen.
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.
Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis
Swyddog Ariannol Cyfrifol (i arolygu gweithrediadau ariannol): Elfed ap Gomer

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 12, 2016

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 12, 2016

Eitem 6.a. Penderfynwyd gofyn i Paul Cook clirio'r sbwriel bler sydd ar ochr y wal yn gyffiniau y fainc sydd wedi ei roi gan deulu y diweddar John Leeds, a gorffen y gwaith yn deidi gyda tywyrch neu hada gwair. Wedi'r gwaith cael ei wneud penderfynwyd gosod arwydd i rybuddio pobol i roi'r sbwriel yn y bin.

Eitem 10.b. Nid oes ateb wedi dod gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â phroblem ceir yn parcio o flaen Sŵn yr Afon, Llanelltyd.

Eitem 10.c. Pasiwyd ein llythyr i Adrian Williams, Prif Beiriannydd Meirionnydd ymlaen i Reolwr Llwybr Ffyrdd Sengl, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i gael sylw.

Rhoddwyd gwybod i Cyngor Dref Dolgellau i gael lle addas i gerddwyr / beicwyr croesi'r ffordd i Bont y Wernddu. Gyda chefnogaeth Cyngor y Dref i'r syniad, paswyd y wybodaeth ymlaen i Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar 6/11/2015.

6. Materion Ariannol

a. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2015 - Mawrth 31, 2016:

i) Swm am: stampiau + papur + inc: £121.30.

Penderfynwyd talu'r swm.

b. Llythyr (Ebrill 8, 2016) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen erbyn Gorffennaf 11, 2016.

Mae'r ffurflen a gwybodaeth eraill sydd ei angen wedi cael eu cwblhau. Mae angen i Geraint Rowlands (Cadeirydd) a Elfed ap Gomer (Swyddog Ariannol Cyfrifol) arwyddo'r ffurflen.

Mae Elfed ap Gomer wedi archwilio Cyfrifon y Cyngor am y cyfnod 2015-2016. Rhoddwyd copi o'r cyfrifon i'r aelodau.

c. Derbyniwyd (19 Ebrill, 2016) siec am £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. i osod beddfaen ar y diweddar Ceinwen Davies.

ch. Dogfennau (12 Ebrill 2015) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth AON am y cyfnod Mehefin 01, 2016 i Mehefin 01, 2017. Y tâl i'w adnewyddu yw £1,021.47 (Tal llynedd oedd £988.83).

Penderfynwyd talu'r swm.

d. Derbyniwyd swm o £3,250.00 (Praesept) oddi wrth Cyngor Gwynedd (25/04/2016).

dd. Anfonwyd i'r aelodau copi o'r prisiau mae Cyngor Gwynedd yn ei godi ar fynwentydd i gael gwybod sydd angen i ni newid y prisiau at Fynwent Llanelltyd.

Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

e. Balans yn y Banc ar Ebrill 29, 2016: £5,808.89.

f. Llythyr (Mai 5, 20126 oddi wrth Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro), Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod am newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus oherwydd toriadau mae'r Awdurdod yn ei wynebu dros y ddwy flynedd nesaf. Mae pob Cyngor Cymuned a Cyngor Tref yn wynebu toriadau yn yr ad-daliad ac yr uchafswm gallwn ni ei hawlio yn y cyfnod 2016/17 a cyn diwedd Mawrth 2017 yw £1,262.55, (y gost am glirio llwybrau yn 2015/16 oedd £1,904.00). Gall fwy o doriadau yn yr ad-daliad ddigwydd yn y cyfnod 2017/18 neu hwyrach bydd dim ad-daliad. Bydd Uned Cefn Gwlad a Mynediad yn cysylltu gyda'r Cynghorau yn ystod yr wythnosau nesaf i ddatblygu syniad yn rhoi cyfleodd ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n dymuno cyfranu at gynnal y rhwydwaith llwybrau.

Penderfynwyd cael gwybod beth sydd gan Uned Cefn Gwlad a Mynediad ei ddweud ar y mater. Roedd awgrym gwahodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd Môn (Swyddfa Menai, Glan y Môr, Felinheli, LL56 4RQ) i wneud gwaith ar y llwybrau.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

Cais cynllunio NP5/65/AD339. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais am ganiatâd i arddangos 3 arwydd (1 ar y ffordd yn arwain o'r cyffordd a'r A496 i'r Tollbont, 1 ochr Llanelltyd o'r Tollbont, ac 1 ar ochr Llynpenmaen y Tollborth). Tir ger Tollborth Llynpenmaen.

b. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/124D. Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl i godi tŷ menter gwledig ac adeilad fferm. Tir ger Tŷ Pwmp, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

ii. NP5/65/336A. Cynllun trydan dŵr 8KW arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae ac adeilad tyrbin, gosod pibell o dan y ddaear, a cyswllt wedi ei gladdu i'r grid trydan. Afon Wnin, Cwm Wnin, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iii. NP5/65/305B. Cais Adran 73 i ddiddymu Amod Rhif 11 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/305 dyddiedig 13 Awst 2010 mewn perthynas a gofynion ''Côd Cartrefi Cynaliadwy''. Tir ger Fferm Ty'n Twll, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

d. Llythyr (Mai 5, 2016) Ymgynghoriad Cyhoeddus. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft wedi cael ei gyhoeddi ar Goleuo Ymwthiol (Llygredd Golau) Mae'r wybodaeth ar gael yn swydfa'r Parc ac yn llyfrgelloedd cyhoeddus. Os mae ymatebion mae'r Parc ei angen cyn Mehefin 17, 2016.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (12/02/2016) oddi wrth Un Llais Cymru. Maent angen dau gynghorydd i gynrychioli ni yng nghyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Ardal.

Yr aelodau fydd Elfed ap Gomer a Gareth Ellis.

b. Llythyr ((26/4/2016) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd a Chyfarfod Blynyddol y Pwyllgor yn Neuadd Pendre, Tywyn ar Mai 25 2016 am 7:00yh. Amgáu mae Cofnodion cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Bala ar Mai 13, 2015, Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Dolgellau ar Chwefror 24, 2016 a Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol yn Llanfair ym Muallt ar Mawrth 11, 2016.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Cyfeiriwyd at erthygl oedd yn y Daily Post ynglŷn â damwain erchyll oedd ar ffordd A496. Wedi trafodi beryglon y ffordd penderfynwyd i Peredur Jenkins trefnnu cyfarfod gydag aelodau y Cyngor; Swyddogion Traffic, Cyngor Gwynedd; a'r Heddlu. Awgrymwyd i'r Heddlu dod a manylion am y damweiniau sydd wedi digwydd ar y ffordd.

b. Mae pryder yn yr ardal na fydd cyfleusterau i baratoi prydiau i'r plant yn ysgol newydd Llanelltyd. Penderfynwyd rhoi gwybod i Adran Addysg, Cyngor Gwynedd y siom sydd yn y gymuned na fydd cyfleusterau i baratoi prydiau yn yr ysgol, a gofyn beth fydd y trefniadau i roi prydiau a'r trefniadau fydd yn ystod na fydd prydiau ar gael fel gyda'r ffordd ar gau.

11. Materion Brys

a. Cyfrannodd Janet Edwards at erthygl yn The Cambrian News am beryglon ffordd A496 wrth Taicynhaeaf lle mae amryw o ddamweiniau traffic yn digwydd. (Roedd yr erthygl am ddamwain oedd yn wahanol i'r ddamwain rhoddwyd gan Peredur Jenkins).

b. Diolchwyd i Elfed ap Gomer am wneud gwaith y Clerc pryd roedd yn absennol.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cadw mae angen clirio tyfiant ar hen bont Llanelltyd ac ail gosod 'coping stone' sydd wedi disgyn i'r afon.